Am ddeunydd ychwanegol a syniadau am weithgareddau ar gyfer eich grŵp, ewch i wefan yr Undeb,

www.annibynwyr.org

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court,
Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe,
Abertawe.
SA7 0AJ

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cynllun

Blwyddyn 1, Rhan 1
Hydref-Tachwedd 2016

Arwain
Sesiwn Gyntaf
Cynllun 'Y Ffordd'

Medi 2016

A chwithau wedi gwahodd pobl i fod yn rhan o grŵp trafod cynllun 'Y Ffordd', awgrymwn eich bod yn dilyn y drefn hon ar gyfer cynnal y cyfarfod.

Mae hwn yn waith y gall unrhyw un ei wneud, boed yn y capel neu'r festri, neu ar yr aelwyd mewn cartref.

Y cyfan sydd ei angen ar gyfer y cyfarfod yw'r modd i wylio clip fideo ar deledu neu gyfrifiadur.

Ceir y manylion am sut i gael y clipiau ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, www.annibynwyr.org

Awgrymir fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y modd hwn:

Croeso a Gweddi

- Croesawu pawb a rhoi cyfle i bobl gyflwyno eu hunain yn fyr.
- Cadarnhau pryd fydd rhan ffurfiol y noson yn gorffen (awgrymir fod y sesiwn yn para dim mwy na 90 munud).
- Gair byr o weddi (gan yr arweinydd) i gyflwyno'r sesiwn i ofal Duw.

Gwylio'r fideo

- Cyn gwylio'r fideo, gwahoddwch aelodau'r grŵp i droi at y person nesaf atyn nhw a threulio **1 MUNUD** yn ateb y cwestiwn 'Pam mae'r Beibl yn bwysig?
- Wedi i'r munud ddod i ben, gellir gofyn i bob pâr rhannu'r hyn a ddwedwyd. Yna eglurwch fod y ffilm fydd yn cael ei dangos yn cyflwyno syniadau pobl ar y Beibl a'i bwysigrwydd.
- Gwylio'r ffilm 'Darllen a Deall y Beibl' (tua 15 munud o hyd).

Trafod

- Mae'r daflen waith ar gyfer y rhan hon o'r cynllun yn cynnwys 4 'Cwestiwn Cyffredinol' am y Beibl. Cadwch y drafodaeth yn hwylus a rhowch gyfle i bawb sydd am gyfrannu i wneud hynny.
- Ceisiwch wneud yn siŵr fod pawb yn y grŵp yn dweud rhywbeth yn ystod y drafodaeth, ac nad oes rhai unigolion yn siarad gormod!
- Os yw'r amser yn caniatáu gellir dewis un dasg neu ddwy o'r deunydd ychwanegol sydd ar dudalennau 3 a 4 yn y daflen i barhau'r drafodaeth, ond hefyd, mae'n bwysig gadael amser ar ddiwedd y sesiwn i ateb y cwestiwn **'Beth allwn ni fel eglwys, neu grŵp, ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?**

Cloi

- Pan fyddwch yn teimlo fod pobl wedi cael digon, dewch â'r drafodaeth i ben, cadarnhau manylion y sesiwn nesaf ac yna cloi gyda gweddi fer.

Os byddwch yn dymuno, gall y trafod barhau dros baned
(gyda'r ddealltwriaeth, wrth gwrs, y bydd rhai angen gadael oherwydd gofynion teulu neu waith)